# Nodyn Arweiniad Technegol 004:Cael trwydded dan 'Reoliadau Gorfodi Cyfraith, Llywodraethu a Masnach Coedwigoedd' 2012 (SI 2012/178)

## 1 Cyflwyniad

Fel Prifysgol, mae'n rhaid i ni fod yn ymwybodol a yw staff yn mewnforio pren ar gyfer gwaith ymchwil o wledydd sydd wedi arwyddo Cytundeb Partneriaeth Wirfoddol (VPA) gyda'r Undeb Ewropeaidd (UE). Byddai unrhyw bren o'r gwledydd hyn yn galw am drwydded FLEGT ddilys. Mae hyn er mwyn atal pren a gynaeafwyd yn anghyfreithlon a chynnyrch pren o'r ffynhonnell hon rhag dod i'r UE o wledydd o'r fath.

## 2 Trwydded Gorfodi Cyfraith, Llywodraethu a Masnach Coedwigoedd (FLEGT)

### 2.1 Pryd mae angen trwydded arnaf?

Bydd angen trwydded arnoch os ydych yn mewnforio pren neu gynnyrch pren ar gyfer gwaith ymchwil o wlad sydd wedi llofnodi'r VPA. Mae manylion y gwledydd sydd wedi llofnodi'r VPA ar ywefan Trwydded FLEGT[1]

### 2.2 Beth mae angen i mi  ei wneud i gael trwydded?

Cyhoeddir trwyddedau FLEGT gan y wlad tarddiad ac maent yn berthnasol i'r holl eitemau yn VPA y wlad honno. Ar hyn o bryd, Indonesia yw'r unig wlad sy'n gweithredu o dan VPA (Mehefin 2020). Serch hynny, mae 15 gwlad arall wrthi'n sefydlu a gweithredu eu VPA hwythau yn yr UE. Mae manylion hefyd ar ba cynnyrch **na all** adael y wlad.

| Gwlad | Cynhyrchion wedi'u cynnwys | Dolen i'r ddogfen |
|---|---|---|
| Indonesia | Atodiad IA ac IB | VPA Indonesia:[2] |

Gallwch weld yr holl VPA ar y ddolen isod drwy glicio ar y wlad berthnasol i gael mynediad at ei chytundeb:

- http://www.flegtlicence.org/vpa-countries

### 2.3 Beth os yw'r hyn rwyf ei eisiau heb ei gynnwys yn y VPA?

Bydd angen i chi godi'r mater gyda'r cwmni/grŵp yr ydych yn mewnforio oddi wrtho gan fod hyn yn ofyniad cyfreithiol ar gyfer pren a chynnyrch pren gan y wlad honno i ddangos cyfreithlondeb y ffynhonnell.

[1]Gwefan Trwydded FLEGT: http://www.flegtlicence.org/vpa-countries
[2]VPA Indonesia: https://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/PDF/?uri=CELEX:22014A0520%2802%29&from=EN

### 2.4 Beth os nad oes FLEGT gan fy nwyddau ?

Efallai nad ydych wedi prynu'r eitem gan ffynhonnell gredadwy a dylech godi digwyddiad niweidiol drwy system Rhowch Wybod Amdanot[3] y Brifysgol fel y gellir ei archwilio er mwyn atal hyn rhag digwydd eto.

## 3 Cyfrifoldebau

| Rôl | Cyfrifoldeb |
|---|---|
| **Prif Ymchwilydd neu Arweinydd yr Ymchwil** | Mae'r Prif Ymchwilydd neu Arweinydd yr Ymchwil (neu'r unigolyn cyfrifol dirprwyedig) yn gyfrifol am y canlynol:<br>• Sicrhau bod y pren yn cael ei brynu gan gyflenwr cymeradwy sydd â thrwydded FLEGT briodol |
| **Arweinydd y Prosiect (Ystadau a Rheoli Cyfleusterau)** | Mae Arweinydd y Prosiect yn gyfrifol am y canlynol:<br>• Sicrhau bod y pren yn cael ei brynu gan gyflenwr cymeradwy sydd â thrwydded FLEGT briodol |

## 4 Cymorth Ychwanegol

Am gymorth ychwanegol, gallwch gysylltu â'r canlynol:

| Rôl | Cyfeiriad e-bost |
|---|---|
| Swyddog Bioamrywiaeth | wildlife@abertawe.ac.uk |
| Swyddog yr Amgylchedd | **sustainability@abertawe.ac.uk** |

## 5 Rheolaeth Dogfen

| **Rheolaeth Dogfen** | |
|---|---|
| Awdur: | Benjamin Sampson a Hayley Beharrell |
| Cymeradwywyd gan: | Heidi Smith |
| Dyddiad yr Adolygiad: | Chwefror 2021 |
| Fersiwn: | 1 |

| Fersiwn | Newidiadau |
|---|---|
| 1 | Dogfen newydd |
| | |
| | |

[3] Rhowch Wybod Amdano!: https://www.swansea.ac.uk/about-us/safety-and-security/health-and-safety/report-it/